DIWYLLIANT
CONWY
CULTURE

# CREU CONWY - CREU'R SBARDUN

## Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 - 2026



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# CREU CONWY
# CREU'R SBARDUN

Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 - 2026

Croeso i Creu Conwy, strategaeth newydd i roi'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth wraidd bywyd cymunedol yn Sir Conwy. Mae Creu Conwy wedi deillio o sgyrsiau a gafwyd ar draws y rhanbarth rhwng 2019 a 2021 gyda dros 200 o sefydliadau ac unigolion. Rydym yn gwybod, os yw'r strategaeth am lwyddo, bod yn rhaid ei darparu mewn partneriaeth, ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weithio gyda chymunedau Conwy i ddatblygu prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Mae Creu Conwy'n dod ar adeg bwysig yn stori Conwy. Mae COVID-19 wedi effeithio ar ein lles ac ar yr economi ac rydym yn wynebu heriau mawr yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rydym yn gweld diwylliant yn declyn pwerus a all ein helpu ni i ailgysylltu a chydweithio i ailadeiladu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy.

Rydym am i ddiwylliant a chreadigrwydd fod yn edefyn cyffredin sy'n rhedeg drwy bopeth sy'n digwydd yma yng Nghonwy. I wireddu hyn mae'n rhaid i ni werthfawrogi ein sector diwylliant a sicrhau y caiff yr adnoddau angenrheidiol. Rydym felly'n cynnig ffyrdd newydd o ariannu diwylliant, ynghyd â syniadau ar gyfer cefnogi ein sector diwylliant i adeiladu ar ei dalent a'i lwyddiannau neilltuol.

Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer Creu Conwy yn tyfu wrth i ni weithio gyda chymunedau, pobl greadigol a busnesau lleol. Rydym yn eich gwahodd i'w weld fel gwaith ar y gweill ac i barhau i rannu eich syniadau dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.



**Charlie McCoubrey,**
**Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cefnogir gan:

LLUN CLAWR: Castell Conwy © Hawlfraint y Goron (2021) Cymru Wales

# DIWYLLIANT YNG NGHONWY

## Beth yw diwylliant?

Gall fod yn anodd ei ddiffinio! Diwylliant yw ein ffordd o fyw, ein hiaith a'n traddodiadau. Mae'n cwmpasu popeth o gelf, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth i chwaraeon, y dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Mae diwylliant yn ein helpu ni i ddiffinio ein hymdeimlad o le a pherthyn; dyma sy'n gwneud Conwy'n wahanol.

Mae Conwy'n lle o wrthgyferbyniad ac amrywiaeth; mae ein tirluniau syfrdanol wedi rhoi enw da i ni fel canolbwynt antur Cymru ac mae ein trefi glan y môr Fictoraidd prysur a'n milltiroedd o draethau tywodlyd yn hynod o boblogaidd gydag ymwelwyr. Yn rhai o'n hardaloedd gwledig mae ffermio wedi bod yn ffordd o fyw pwysig ers canrifoedd os nad miloedd o flynyddoedd.

Mae'r Gymraeg yn ffynnu yng Nghonwy; mae'r iaith yn datgloi byd o lenyddiaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth a thraddodiadau bywyd bob dydd. Mae sioeau pentref ac amaethyddol, gwyliau, cyngherddau lleol ac eisteddfodau i gyd yn cyfrannu at ein diwylliant Cymraeg cyfoes, ffyniannus. Mae gennym sector diwylliannol a chreadigol arbennig yma yng Nghonwy gyda'r sir yn gartref i lu o awduron, cerddorion a pherfformwyr yn ogystal â MOSTYN, oriel gelf sydd ag enw rhyngwladol.

Mae Conwy'n sir sy'n edrych y tu hwnt i'w ffiniau ei hun; yn sir fodern a blaengar gyda threftadaeth ddiwylliannol amrywiol. Rydym yn deall pa mor bwysig y gall iaith a diwylliant fod i ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Mae hanesion a lleisiau cudd yn dechrau gweld golau dydd yng Nghonwy ac ar draws y byd ac rydym yn falch o allu cyfrannu at ddweud straeon cynulleidfaoedd sydd, yn draddodiadol, wedi'u hymyleiddio drwy weithio gyda'n cymuned yn ei holl amrywiaeth.

# CIPLUN
# O DDIWYLLIANT

Mae **dros** **1/4** **yr oedolion** a mwy na **1/2** y **plant ysgol** **yn siarad Cymraeg**.

Mae'r **Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Castell Conwy** a muriau'r dref, yn amgylchynu tref hardd Conwy gyda'i **harbwr gweithredol**.

Mae bywyd amaethyddol llewyrchus a pheth o'r **bwyd a'r cynnyrch lleol gorau yn y byd i'w weld yng Nghonwy**.

Mae ein theatrau arbennig, **Venue Cymru** a **Theatr Colwyn** yn croesawu dros **300,000** **o ymwelwyr bob blwyddyn**.

Mae rhwydwaith llwyddiannus o **orielau celf** ac **amgueddfeydd annibynnol yn** croesawu dros **100,000** o ymwelwyr y flwyddyn.

Mae ein **llyfrgelloedd** a'r **Ganolfan Ddiwylliant yn ganolbwyntiau diwylliannol** gyda thros **400,000** o ymweliadau bob blwyddyn.

Mae gennym ni bron i **400** **o fusnesau creadigol** yn cyflogi tua **3000** o bobl.

Mae Conwy yn cynnal tua **400** **o ddigwyddiadau rhyngwladol, cenedlaethol** a **rhai sydd wedi tyfu'n** lleol bob blwyddyn.

Mae bron i **40 milltir** o **draethau hyfryd** a sawl **promenâd Fictoraidd** ar **arfordir Conwy**.

Mae ein canolfannau hamdden yn cael dros **850,000** o ymweliadau bob blwyddyn.



Siambr Gladdu Maen y Bardd, Rowen © CBSC





# GOSOD Y CEFNDIR

## Ar gyfer pwy mae'r strategaeth hon?

Mae Creu Conwy ar gyfer pawb sy'n byw neu'n gweithio yng Nghonwy neu sy'n ymweld â'r sir - ein cymunedau a'n busnesau, ein pobl ieuengaf a hynaf, ein sectorau creadigol a threftadaeth. Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon rydym wedi ystyried strategaethau a deddfau perthnasol i ddiwylliant, datblygiad economaidd a lles sy'n perthyn i Gyngor Conwy ac i eraill ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Gwneud gwell defnydd o ddiwylliant er budd lles; cyrraedd y rhai hynny'n sy'n meddwl nad rhywbeth iddyn nhw yw diwylliant.

**Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022:** Sir ddiwylliannol sy'n ffynnu; sir lle mae gan bobl lais; mae sgiliau, twf a'r amgylchedd yn hanfodol bwysig i'n dyfodol.



Bugeilio ym Mhenmachno. Delwedd heb ddyddiad. Casgliad Llyfrgell Llandudno (Gwasanaeth Archifau Conwy)

**Strategaeth Ddigwyddiadau 2018-2022:** Digwyddiadau sy'n dathlu iaith a diwylliant yr ardal ac yn hybu'r hyn sy'n unigryw ac yn arbennig am y Sir. Mae'r digwyddiadau yma hefyd yn allweddol i helpu i gefnogi ymdeimlad o fodlonrwydd a hapusrwydd cymunedol a gallant ddod â chymunedau at ei gilydd.

**Strategaeth Twf Economaidd a Chynllun Adfer Conwy:** Mae diwylliant a'r diwydiannau creadigol wrth galon adfywio canol trefi; datblygu capasiti ar gyfer diwydiannau diwylliannol, creadigol a thwristiaeth Conwy.

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Conwy 2022-2026:** Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ac mewn teuluoedd; hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ymysg plant a phobl ifanc.

**Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026:** Datblygu ein llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau.

**Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy:** Cryfhau enw da cenedlaethol a rhyngwladol Conwy fel canolbwynt diwylliannol; creu rhaglenni mwy cydlynol ac anturus; trawsnewid twristiaeth, yn enwedig y tu hwnt i'r prif dymor; defnyddio lleoliadau eiconig a natur ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a'r celfyddydau.

# GWELEDIGAETH! CREU’R SBARDUN



Golau Gaeaf © CBSC

## Mae diwylliant yn sbardun ar gyfer twf economaidd, lles a chysylltiad.

Gall diwylliant hybu twf economaidd cynaliadwy a helpu i ddod â chymunedau’n agosach at ei gilydd. Wrth i ni ddod allan o’r pandemig COVID-19, rydym yn wynebu heriau allweddol y gall diwylliant ein helpu ni i’w goresgyn:

- Mae gennym boblogaeth sy’n heneiddio gyda llawer o bobl yn byw ar eu pen eu hunain. Mae’r pandemig wedi gwneud unigrwydd ac amddifadedd yn broblemau gwaeth fyth.
- Mae ein heconomi’n dibynnu ar dwristiaeth ac ers y pandemig rydym yn gweld cynnydd dramatig yn nifer yr ymwelwyr â’r sir – nifer a oedd eisoes yn uchel. Sut allwn ni sicrhau bod ein cymunedau’n cael eu cefnogi a’u gwella, ond nid eu gorlethu?
- Dylai diwylliant fod yn hygyrch, yn hwyl ac yn berthnasol i bawb ond mae llawer yn cael eu hunain ar yr ymylon ac wedi’u datgysylltu rhag bywyd diwylliannol o hyd.

Er mwyn creu newid go iawn, rhaid i ddiwylliant fod yn berthnasol ac yn hygyrch a rhaid iddo fod yn nwylo’r gymuned. I sicrhau bod hyn yn digwydd rydym eisiau datblygu prosiectau ar y cyd â’r gymuned sy’n defnyddio’r egwyddorion o fod yn **anturus**, yn **chwareus** ac yn **gysylltiedig**.

### Beth mae **anturus**, **chwareus** a **chysylltiedig** yn ei olygu?





### ANTURUS

Conwy yw prif gyrchfan antur Cymru ac rydym yn credu y gall diwylliant fod yn antur hefyd! Rydym am i bobl deimlo’n hyderus ac wedi cyffroi am fynd ar anturiau diwylliannol - yn cynnwys pobl sy’n meddwl nad ydi diwylliant yn rhywbeth iddyn nhw.

Lansiwyd **ap Llwybr Dychmyg** Bae Colwyn ym mis Medi 2021. Mae’r ap yn seiliedig ar lwybrau treftadaeth lleol gyda chynnwys creadigol a hanesyddol wedi’i gyfoethogi â phrofiadau realiti estynedig ger adeiladau a thirnodau cyfarwydd. Mae’r llwybr wedi gwneud treftadaeth leol yn fwy deniadol i grŵp ehangach o bobl drwy wneud y cyffredin yn antur. Mae’r Llwybr Dychymyg yn rhan o brosiect Dychmygu Bae Colwyn, cynllun Lle Arbennig Cronfa Dreftadaeth y Loteri.



Cledwyn, I’m a Celebrity...Get Me Out of Here! © ITV

### CHWAREUS

Ydi hyn yn gwneud i mi fod isio stopio, gwenu a chymryd rhan? Rydym eisoes wedi gweld enghreifftiau gwych o weithgaredd diwylliannol chwareus yng Nghonwy.

Roedd yr arwydd gwyn enfawr ar ochr y bryn uwch ben Llanrwst yn sicrhau bod ymwelwyr **Eisteddfod Genedlaethol 2019** yn gwybod eu bod yn y lle cywir! Roedd y darn o gelf chwareus a hynod weladwy hwn yn brosiect partneriaeth a arweiniwyd gan Ffiwsar.

Yn fwy diweddar, defnyddiodd Oriel Colwyn ac ysgolion lleol ddylanwad enfawr y rhaglen ‘I’m a Celebrity… Get Me Out of Here’ fel ysbrydoliaeth ar gyfer llwybr hanes hwyl o amgylch Abergele. Tafluniwyd ffilmiau byrion gyda delweddau archif o’r castell ar ffenestri siopau a rhoddwyd gwaith celf finyl o archifau’r castell mewn siopau gwag. Ymddangosodd dros 100 o aelodau’r gymuned yn ‘**Celebrity Town**’, arddangosfa ffotograffiaeth awyr agored fawr a oedd yn cydnabod y bobl sy’n byw, yn masnachu ac yn gweithio yn Abergele.

### CYSYLLTIEDIG

Rydym am i Greu Conwy gryfhau partneriaethau sy’n dwyn pobl greadigol a chymunedau ynghyd i gyflwyno digwyddiadau gwirioneddol arbennig. Rydym am i’r hen a’r ifanc rannu anturiau diwylliannol gyda’i gilydd gan greu cysylltiadau ar draws y cenedlaethau. Ac rydym eisiau cefnogi ein sector creadigol i adeiladu ar ei gysylltiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i godi proffil cynnig diwylliannol Conwy.

Roedd ‘**Unbind the Wing**’ yn ddathliad i nodi 100 mlynedd ers i ferched gael yr hawl i bleidleisio, drwy gysylltiad Laura McLaren, Arglwyddes Aberconwy, â mudiad y swffragwyr. Arweiniodd cyfres o weithdai cymunedol at berfformiad theatraidd lle arweiniwyd y gynulleidfa gan actorion a chast cymunedol ar orymdaith drwy hanes y gerddi hyfryd Bodnant. Fe wnaeth y prosiect, dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, greu cysylltiadau rhwng partneriaid lleol (Pigtown Theatre, Embroiderers Guild, Conwy Coastal Voices) a phartneriaid cenedlaethol (Opera Cenedlaethol Cymru, Amnest Rhyngwladol).



Unbind the Wing © Kristina Banholzer

# AMCANION STRATEGOL

## Rydym wedi adeiladu Creu Conwy o amgylch tri philer: Rhaglen, Llefydd a Phobl.

## RHAGLEN

Rydym eisiau camu y tu allan i'r hyn sy'n gyfarwydd a bod yn wirioneddol anturus yn ein rhaglennu diwylliannol. Rydym yn gwybod y gall cynnig diwylliannol cryfach arwain at ganlyniadau gwell - yn economaidd ac o ran helpu i gymell deilliannau iechyd a lles gwell.

Wrth i ni ddechrau ailadeiladu ar ôl y pandemig COVID-19, rydym eisiau chwistrellu sbardun diwylliant i galendr digwyddiadau y sir.

Ein **hamcanion** ar gyfer rhaglennu diwylliannol Conwy yw:

- Bod diwylliant yn hygyrch i bawb ac yn rhan o fywyd bob dydd yng Nghonwy
- Y bydd ymwelwyr â Chonwy wedi'u syfrdanu â diwylliant y Sir
- Bod cynnig diwylliannol Conwy'n unigryw ac yn arloesol



Gŵyl Ffotograffiaeth Northern Eye © Paul Sampson





Ôl Llywelyn, Llanrwst. © Keith Morris

Gall cyflwyno elfennau diwylliannol gryfhau ac adfywio'n sylweddol ddigwyddiadau sydd eisoes yn bodoli. Mae gennym eisoes galendr rhagorol o ddigwyddiadau yng Nghonwy ac rydym eisiau ychwanegu ato a'i wella drwy greu rhaglen ddiwylliannol gryf gyda'n cymuned a'n sector creadigol. Ble bynnag bosib byddwn yn defnyddio ein safleoedd diwylliannol a'n tirluniau eiconig fel llwyfan. Mae marchnata effeithiol yn hanfodol bwysig i raglennu llwyddiannus, a byddwn yn sicrhau bod digwyddiadau a gwyliau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu cysylltu a'u hyrwyddo dan faner diwylliant wedi'i rhannu.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Greu Conwy cawsom awgrymiadau perthnasol i raglennu diwylliannol yn amrywio o glybiau comedi, gwyliau llenyddiaeth a gigs iaith Gymraeg i wyliau stryd, dramâu awyr agored a ffeiriau celf a chrefft. Bydd y cynlluniau gweithredu yr ydym yn eu cyd-greu yn adlewyrchu'r syniadau cyffrous hyn gan sicrhau bod rhaglenni'n canolbwyntio ar bobl ifanc, teuluoedd, gweithgareddau rhyng-genhedlaeth a hygyrchedd i bawb.

# LLEOEDD

Mae **lle** yn ymwneud â dathlu'r tirweddau a'r adeiladau neilltuol sy'n gwneud Conwy'n unigryw.

Rydym am i'r llefydd hyn fod yn gefndir i weithgaredd diwylliannol chwareus a dyfeisgar ag iddynt apêl cenedlaethol a rhyngwladol. Mae lle hefyd yn ymwneud ag adeiladu llwyfan ar gyfer bywyd yng Nghonwy; creu digwyddiadau ysbrydoledig sy'n cyffroi ac yn ymgysylltu pobl leol ar yr un pryd â chynnal adfywiad a lles cymunedol.



Castell Dolwyddelan
© Hawlfraint y Goron (2021) Cymru

## SBARDUNAU DIWYLLIANNOL

Byddwn yn creu clwstwr o **Sbardunau Diwylliannol** ym mhum prif dref y sir – Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst. Bydd y Sbardunau'n dod â phobl, syniadau a chreadigrwydd ynghyd i ddarparu prosiectau lleol nodweddiadol.

Er mwyn gwneud hyn, defnyddir ymdriniaeth creu lleoedd creadigol, sydd yn syml yn golygu y byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau lleol i ail-ddyfeisio eu hamgylchedd lleol yn greadigol.

Er mai'r trefi Sbardun sydd yn y sbotolau, ohonynt bydd prosiectau a manteision yn estyn allan i ardaloedd eraill yn cynnwys Bae Cinmel, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan, Betws y Coed a'n cymunedau gwledig.



Dynion yn ymdrochi ger Pafiliwn y Pier, Bae Colwyn Casgliad Archifau Conwy

Er enghraifft, hoffem greu 'llwybrau diwylliant araf' yn canolbwyntio ar themâu fel bwyd, treftadaeth, tirweddau a bywyd gwyllt i annog ymwelwyr i fentro o'r trefi mwy ac archwilio'r sir yn ehangach.

Bydd y Sbardunau'n gwneud y mwyaf o'n cryfderau diwylliannol. Mae gan y sir glystyrau o asedau diwylliannol rhagorol gan gynnwys llyfrgelloedd, amgueddfeydd, theatrau a safleoedd treftadaeth o safon fyd-eang. Rydym eisiau defnyddio'r llefydd hyn i'w llawn botensial drwy'r ymdriniaeth Sbardun, gan greu cynlluniau gweithredu lleol sy'n sensitif i nodweddion arbennig pob lle.

Bydd y Sbardunau hefyd yn helpu i ddod o hyd i atebion ymarferol i flaenoriaethau lleol megis hygyrchedd lleoliadau, arwyddion a dehongli priodol.

## DIWYLLIANT A'R AMGYLCHEDD

Rydym eisiau creu mannau cyhoeddus bywiog ond cynaliadwy sy'n cyfrannu at leihau carbon a'r nodau sero-net. Mae'r pwynt cyfarfod rhwng seilwaith gwyrdd a diwylliant yn creu cyfleoedd cyffrous ar gyfer prosiectau arloesol. Rydym eisiau cefnogi mentrau sy'n defnyddio'r celfyddydau fel teclyn i drawsnewid llefydd, newid meddyliau ac ymddygiadau a helpu i daclo argyfwng yr hinsawdd.

## ASTDIAETH ACHOS

Yn ddiweddar bu Taylor Edmonds, Bardd Preswyl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yng Ngolygfa Gwydyr. Cynhaliwyd gweithdy ysgrifennu creadigol cymunedol i ystyried effaith newid hinsawdd yn lleol, megis llifogydd yn Nyffryn Conwy.

Cynhyrchodd y cyfranogwyr gerdd ar y cyd i gyfrannu at '**Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol**', adroddiad sydd i'w gyhoeddi ar effeithiau newid hinsawdd mewn cymunedau lleol. Menter gymdeithasol yw Golygfa Gwydyr sydd hefyd yn rhedeg theatr Caerdroia yng Nghoedwig Gwydyr a phrosiectau amgylcheddol wedi'u seilio ar goedwigaeth.

## BAE COLWYN: SBARDUN

Gan adeiladu ar waith adfywio Bywyd y Bae+ ac yn fwy diweddar, y **prosiect Dychmygu**, mae Bae Colwyn wedi datblygu i fod yn ganolbwynt ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Mae rhwydwaith newydd, Colwyn Creadigol a Digidol, yn cynnig cyfleoedd cefnogi a datblygu, ac mae cynllun bwrsariaeth yn cynnig grantiau ar gyfer pobl greadigol er mwyn iddynt allu manteisio ar gyfleoedd hyfforddi, mentora a datblygu. Mae Tim Tref traws-sector wedi dod ynghyd i archwilio sut y gall gweithgaredd diwylliannol, datblygiad a arweinir gan y gymuned a'r defnydd o adeiladau ail-ddyfeisio canol tref Bae Colwyn i gefnogi lles a thwf economaidd.

Yn hwyr yn haf 2021, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau'n dathlu ymdeimlad o le gan arddangos gwaith a gynhyrchwyd ar y cyd â'r gymuned. Lansiwyd asedau cymunedol newydd yn cynnwys brandio lle, yr **ap Llwybr Dychymyg** a **Bae Colwyn 2030** – cynllun i wneud defnydd o adeiladau gwag ac i adfywio'r dref.

Mae'r Llwybr Dychymyg yn rhan o brosiect **Dychmygu Bae Colwyn**, cynllun Llefydd Gwych y Loteri Genedlaethol.



Gŵyl Ffotograffiaeth Northern Eye © Paul Sampson



# Sut allwn ni ddefnyddio ein hasedau diwylliannol i dyfu ein model Sbardun?

## LLYFRGELLOEDD

Yn eu rôl fel canolbwyntiau cymunedol, gall llyfrgelloedd gefnogi'r model Sbardun drwy ddarparu lle i bobl rannu syniadau, dysgu, creadigrwydd a menter.

Mae llyfrgelloedd hefyd yn llefydd diogel lle caiff pobl fynediad at wasanaethau sylfaenol yn ddidrafferth ac sy'n rhaff achub i'r rhai hynny sy'n ynysig neu wedi'u cau allan o fywyd cymunedol. Mae'r cyfuniad o ddiwylliant yn y llyfrgell – llenyddiaeth, ffilm a'r cyfryngau digidol, treftadaeth a'r celfyddydau – yn cynnig porth gwych at ddiwylliant i'r rhai hynny nad ydynt fel arfer yn cael cyfle i gymryd rhan.



Llyfrgell Ardal yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy © CBSC

## AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU

Yn Sir Conwy mae cymysgedd gwych o amgueddfeydd achrededig, orielau a safleoedd treftadaeth. Mae MOSTYN yn Llandudno yn oriel gyfoes nodedig sydd ag enw da yn rhyngwladol.

Mae'r Academi Frenhinol Gymreig - canolfan o ragoriaeth artistig a sefydlwyd yn 1882; Amgueddfeydd Llandudno a Phenmaenmawr a ailddatblygwyd yn ddiweddar; amgueddfa wledig Syr Henry Jones; Amgueddfa'r Ail Ryfel Byd (Homefront); Mwyngloddiau Copr y Gogarth; Tŷ Mawr Wybrnant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Thŷ Aberconwy i gyd yn atyniadau ymwelwyr poblogaidd.

Fel llyfrgelloedd, mae amgueddfeydd a galerïau'n ysbrydoli pobl ac yn cynhyrchu syniadau, yn meithrin sgiliau a dysgu ac yn dod â chymunedau at ei gilydd. Mae llwyddiant Creu Conwy a phob Sbardun yn dibynnu ar gryfhau rhwydweithiau rhwng y lleoliadau hyn a gwneud yn siŵr bod marchnata, rhaglennu a hyfforddiant cydlynol yn darparu cefnogaeth ble bo'i hangen.



Plas Mawr, Conwy © Bob Farrow

## ASTDIAETH ACHOS

Mae **MOSTYN** yn oriel gelf ryngwladol gyfoes wedi'i lleoli yn Llandudno. Yn cyflwyno celf gyfoes ryngwladol ragorol sy'n ymgysylltu'n feirniadol, mae MOSTYN yn ysbrydoli ac yn annog pobl i ffurfio a rhannu safbwyntiau newydd ar y byd trwy ei raglenni. O fis Ebrill 2019 hyd fis Mawrth 2020 arddangosodd yr oriel waith dros 60 o artistiaid cyfoes o bob rhan o'r byd; cynhaliodd dros 200 o weithdai cymunedol a gweithgareddau ar gyfer mwy na 4,000 o gyfranogwyr a chefnogodd dros 400 o wneuthurwyr annibynnol a busnesau bach yn eu lleoliadau manwerthu.



## EGLWYS, CAPEL, YSGOL A THAFARN

Mae'r canolfannau hyn i gyd wedi bod wrth wraidd diwylliant llawer o drefi bach a phentrefi dros y blynyddoedd ac maent yn parhau i fod yn angorau ar gyfer bywyd diwylliannol. Rydym eisiau cefnogi cysylltiadau da rhyngddynt a'r ardaloedd Sbardun.

- Mae Conwy wedi cefnogi sawl prosiect twristiaeth ffydd wrth gydnabod y rôl y mae eglwysi a chapeli'n ei chwarae o ran hunaniaeth, cyfranogiad diwylliannol a chefnogi'r iaith Gymraeg. Bydd Creu Conwy'n ehangu'r model twristiaeth ffydd fel y gallwn ail-ddychmygu'n sensitif botensial yr adeiladau hyn a'r gwreiddiau dwfn sydd ganddynt yn ein cymunedau.
- Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu mwy creadigol ac integredig. Gallai ysgolion Conwy fabwysiadu modelau addysg diwylliannol fel 'Cultural Schoolbag[1]' Norwy a mentrau STEM, sydd ar fin cael ei ailenwi'n STEAM er mwyn cynnwys y celfyddydau.
- Fwy nag erioed, mae ein tafarndai angen cefnogaeth. A ellir eu dathlu fel mannau ar gyfer cerddoriaeth a barddoniaeth o safon yn ogystal â bwyd a chwrw rhagorol? Mae tafarndai ffyniannus yn rhan hollbwysig o economi'r nos drwy gydol yr wythnos ac yn atyniad diwylliannol pwysig. Rydym eisiau cysylltu cynnig bwyd a diwylliannol tafarndai gyda'r ardaloedd Sbardun, a fydd yn gofyn am gyllid, rhaglennu ar y cyd, gwell hyrwyddo ac adolygiad o drefniadau trwyddedu cyfredol i weld sut y gallwn annog mwy o berfformiadau cerddoriaeth.

## CONWY AR Y SGRIN FAWR...

Mae nifer o leoliadau yng Nghonwy wedi'u defnyddio fel cefndir ysbrydoledig ar gyfer rhaglenni teledu, yn cynnwys 'I'm a Celebrity... Get Me Out of Here', 'Salvage Hunters' gyda Drew Pritchard ac 'It's a Sin' Sianel 4 a gafodd ei ffilmio yn Llandrillo yn Rhos. Bydd Creu Conwy yn parhau i hyrwyddo tirweddau, trefi a phentrefi eithriadol y sir fel lleoliadau ffilmio.

[1] www.denkulturelleskolesekken.no/english-information/this-is-the-cultural-schoolbag/

## THEATRAU

Mae theatrau Conwy yn Llandudno a Bae Colwyn gyda'i gilydd yn denu bron i 350,000 o ymwelwyr drwy'u drysau bob blwyddyn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol at ein heconomi ac at addysg ddiwylliannol a chyfranogiad pobl ifanc, er enghraifft drwy'r fenter **Cymerwch Ran**.

Mae potensial i ehangu gwaith rhaglennu i weithio gydag amrywiaeth ehangach fyth o sefydliadau gan gefnogi lleoliadau a mentrau annibynnol, llai. Yn y tymor hirach gallai hyn arwain at ŵyl theatr newydd, o bosibl gan ddefnyddio lleoliadau awyr agored yn ystod yr haf.



Theatr Colwyn © CBSC



Hafodunos, Llangernyw, ar Lwybr y Pererin o Abaty Dinas Basing i Ynys Enlli

© Mike Costello North Wales Pilgrim's Way



# POBL

Datblygu pobl yw'r elfen hollbwysig mewn Strategaeth Ddiwylliannol lwyddiannus.

Mae gan Gonwy gymuned eang o bobl sy'n angerddol am ddiwylliant y sir. Mae pobl a sefydliadau ar draws y rhanbarth wedi dweud wrthym y bydd sector diwylliannol mwy cysylltiedig yn cael mwy o effaith. Drwy gefnogi partneriaethau diwylliannol a chynllunio mwy cydlynol gallwn gryfhau cynnig diwylliannol y sir yn aruthrol.

## LLYWODRAETHU

Bydd Creu Conwy yn cefnogi prosiectau sy'n rhoi diwylliant wrth wraidd polisi a gwneud penderfyniadau ar draws y sectorau. Bydd Creu Conwy yn defnyddio grym trawsnewidiol diwylliant i gefnogi prosiectau strategol ar draws meysydd twristiaeth, addysg a phobl ifanc, datblygu gwledig ac iechyd a lles.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn rhedeg nifer o leoliadau megis theatrau a chanolfannau cynadledda, llyfrgelloedd a Chanolfan Ddiwylliant yn ogystal â bod yn berchen ar nifer o asedau diwylliannol eraill ar draws y sir.

Mae'n darparu grantiau i weithredwyr diwylliannol annibynnol ac yn cyflogi staff sy'n gweithio'n agos â sefydliadau diwylliannol ac yn darparu digwyddiadau. Mae hyn oll yn golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa dda o ran maint ac adnoddau i gefnogi twf sector diwylliannol y sir. Fodd bynnag, fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae'r cyfrifoldeb am ddiwylliant wedi'i ledaenu ar draws nifer o wasanaethau ac yn allanol drwy gyrff fel Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, MOSTYN ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.



Enid ac Irene, Straeon Ysgol Bodlondeb
© Lisa Heledd Jones



Dawns Teulu, LLAWN © Paul Sampson

## PARTNERIAETH CREU CONWY

Rydym eisiau datblygu model diwylliannol newydd a fydd yn dwyn amrywiaeth eang o sefydliadau ac agendâu at ei gilydd. Rydym yn dymuno:

1. Sefydlu menter bartneriaeth strategol i fod yn fforwm ar gyfer diwylliant yng Nghonwy ac i oruchwylio gweithrediad Creu Conwy. Bydd hyn yn cyflwyno ymdriniaeth gytbwys a chysylltiedig o ran cynllunio diwylliannol lle gall rhanddeiliaid llai ac annibynnol y sir weithio gyda - a dylanwadu ar - sefydliadau ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol.

2. Ail-alinio gweithgaredd ag elfen ddiwylliannol o fewn CBSC er mwyn gwreiddio diwylliant yn narpariaeth prosiectau ar draws gwahanol wasanaethau - rhywbeth sydd eisoes wedi dechrau drwy gread y Gwasanaeth Economi a Diwylliant newydd.

3. Sefydlu partneriaethau diwylliannol lleol neu Dimau Tref i oruchwylio'r pum Sbardun newydd. Bydd y cysylltiadau creadigol hyn yn bwydo i mewn i'r brif bartneriaeth strategol.

Bydd y strwythurau yn 1) a 3) yn gweithredu drwy fodel partneriaeth wedi'i ddylunio i gefnogi'r sector diwylliannol lleol i gyfrannu at ddatblygiad drwy gysylltu ag amrywiaeth ehangach o sectorau a sefydliadau.

Bydd y bartneriaeth strategol newydd yn cynnal cysylltiadau agos â'r trydydd sector ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli.

Mae'n hanfodol bwysig bod y model llywodraethu newydd hwn yn cynnwys cyfathrebu a chefnogaeth effeithiol ar gyfer gwirfoddolwyr (a gynrychiolir mewn grwpiau megis Fforwm Treftadaeth Conwy) a'r sector creadigol (a gynrychiolir mewn grwpiau fel 'Beth Nesaf?').



Llwybr Celf Abergele © Paul Sampson



Ruby Gibbens, Twrch Trwyth, LLAWN © Mark McNulty

## MEITHRIN CAPASITI CREADIGOL

Er mwyn cyrraedd ein llawn botensial fel sir ddiwylliannol anturus, mae'n rhaid i ni gefnogi **sector creadigol ffyniannus ac effeithiol.**

Boed yn grŵp celf cymunedol neu'n asiantaeth cyfathrebiadau digidol, mae gan bob sefydliad a busnes ran i'w chwarae mewn creu Conwy ffyniannus gyda swyddi cynaliadwy a chymunedau wedi'u cysylltu'n dda. Mae effaith COVID-19 yn golygu bod grwpiau celf, elusennau a busnesau creadigol angen mwy o gefnogaeth nag erioed.

Er mwyn atgyfnerthu gwytnwch a chapasiti ein sector creadigol, byddwn yn adeiladu ar gynllun bwrsariaeth Dychmygu Bae Colwyn, yn cynyddu mynediad at gyllid a gofod, ac yn datblygu ein pobl ifanc drwy brosiectau addysg creadigol ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed o'r ysgol gynradd drwodd i addysg bellach.

Yn ystod y pandemig COVID-19, cefnogwyd dros 140 o weithwyr llawrydd drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yng Nghonwy. I adeiladu ar hyn byddwn yn cysylltu â Chymru Greadigol sy'n datblygu Addewid Gweithwyr Llawrydd i feithrin gweithio effeithiol rhwng y sector cyhoeddus a gweithwyr creadigol llawrydd.

## GOFALU BOD LLEISIAU'N CAEL EU CLYWED

Pwrpas Creu Conwy yw helpu sector creadigol a diwylliannol Sir Conwy i dyfu, ond sut fydd llwyddiant yn edrych?

Rydym eisiau adnabod, cydnabod a hybu talent lleol o bob cefndir fel bod cymuned greadigol Conwy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei gwreiddioldeb a'i chynwysoldeb.

I lwyddo, mae'n rhaid i Greu Conwy sicrhau bod pobl ifanc, gweithwyr llawrydd creadigol a grwpiau sydd yn draddodiadol wedi'u hymyleiddio'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw fodel llywodraethu a bod y broses o wneud penderfyniadau'n cael ei throsglwyddo os yw hynny'n briodol. Felly hefyd wrth weithio gyda'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc greadigol, mae'n rhaid i Greu Conwy gofleidio ymdriniaethau heb fod yn draddodiadol a bod yn barod i roi rheolaeth guradurol i bobl ifanc.



Golau Gaeaf © CBSC

## IECHYD A LLES

Mae unigrwydd ac ynysu'n fwy o broblem nag erioed ers COVID-19.

Mae dros 18% o aelwydydd y sir yn bensiynwyr sy'n byw ar eu pen eu hunain ac mae tua 13,600 o bobl yn cael eu gofalu amdanynt gan ofalwyr di-dâl. Mae tystiolaeth yn dangos bod ymgysylltiad diwylliannol yn wirioneddol wneud i bobl deimlo'n iachach ac yn hapusach. Rydym eisiau annog pobl i fod yn fwy cysylltiedig â bywyd diwylliannol a dinesig a gyda'i gilydd, ac i fesur effaith gweithgaredd diwylliannol ar eu lles eu hunain.

Byddwn yn archwilio amrywiaeth o brosiectau partneriaeth diwylliant-er-lles, yn cynnwys mentrau rhagnodi cymdeithasol a'r celfyddydau mewn iechyd, a fydd yn cael eu hadnabod drwy ragor o ymchwil a datblygu yn ystod y broses o gynllunio'r camau gweithredu.

### ASTDIAETH ACHOS

Mae **Creu** yn brosiect gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy sy'n cael ei redeg gan Venue Cymru gyda chymorth cyllid ychwanegol gan Blant Mewn Angen y BBC. Mae **Creu** yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl sy'n cael eu hailgyfeirio gan y gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid iechyd. Drwy brofi amrywiaeth eang o weithgareddau anogir pobl ifanc i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fynegi eu hunain a chymryd rhan yn y celfyddydau.

### ASTDIAETH ACHOS

Mae Llyfrgelloedd Conwy wedi defnyddio model 'The Reader' o sesiynau rhannu darllen drwy fwynhau a phrofi llenyddiaeth mewn lleoliadau cymunedol. Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, sy'n cael eu hailgyfeirio gan amrywiaeth o bartneriaid, yn cyfarfod yn wythnosol i ddarllen ffuglen glasurol a barddoniaeth gyda'i gilydd ac i rannu ymatebion a phrofiadau.

Mae rhai syniadau cychwynnol yn ymwneud â diwylliant a lles yn cynnwys:

- Dyddiadur Antur wedi'i lunio o amgylch model 2 y **Pum Ffordd at Les**. Gallai'r dyddiadur nodi'r lefelau presennol o ymgysylltiad diwylliannol, cymell gweithgaredd a mesur ymdeimlad o les y cyfranogwr. Gellid defnyddio'r casgliadau i siapio prosiectau eraill sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu.
- Pasbort Diwylliannol y gellid - fel y Dyddiadur Antur - ei ddatblygu'n ap. Gan annog ymgysylltiad, mynediad a pherchnogaeth, gallai'r pasbort gynnwys cymhelliannau fel cynigion arbennig a mynediad arbennig ar adegau penodol. Gellid ei deilwra ar gyfer unigolion gan greu amserlen ddigwyddiadau'n seiliedig ar eu diddordebau penodol nhw, a byddai ar gael am ddim neu am bris gostyngedig ar gyfer grwpiau sydd angen cefnogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.



Taith Dancing the Decades i Gartrefi Gofal Cymru © Dawns i Bawb

[2] https://bcuhb.nhs.wales/health-advice/five-ways-to-wellbeing/

## YR IAITH GYMRAEG A CHROESO NODEDIG CONWY

Mae astudiaethau'n dangos bod ymwelwyr ym mwynhau'r 'sioc diwylliannol' o ddod ar draws geiriau newydd ac y gall hyn wella eu profiad o le.

Gall y defnydd o'r Gymraeg roi ymdeimlad o fod yn goeliadwy a chreu cysylltiadau ystyrlon. Byddwn yn archwilio dulliau o gyflwyno'r Gymraeg mewn ffyrdd chwareus ac ysgafn, gan helpu i annog y defnydd o eiriau Cymraeg sylfaenol. Gellid gwneud hyn drwy apiau a phlatfformau digidol eraill, digwyddiadau, arwyddion dros dro chwareus, arddangosfeydd a cherddoriaeth, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis Menter Iaith.



Tŷ Mawr Wybrnant © Delwedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Arnhel De Derra

### ASTDIAETH ACHOS

Yn 2021 ychwanegwyd at Ddydd Miwsig Cymru drwy wneud defnydd o estyn allan digidol syml ond effeithiol. Rhannwyd rhestr chwarae o bump o ganeuon Cymraeg, hawdd cael atynt drwy gôd QR gydag ysgolion ar draws Sir Conwy. Rhoddodd hyn gyfle i'r disgyblion ymgolli yn y Gymraeg a diwylliant Cymru a thrafod y gerddoriaeth yn y dosbarth. Mae'r prosiect wedi esblygu i gynnwys 'Band Cymraeg y Mis', sy'n cael ei rannu gydag ysgolion ochr yn ochr â rhestr awgrymedig o ganeuon i'w chwarae.

## SGILIAU A DATBLYGIAD TWRISTIAETH

Mae'n rhaid i ni newid y canfyddiad mai dim ond rhagolygon gyrfa cyfyngedig a chyflog llai na'r cyfartaledd a gynigir gan dwristiaeth a lletygarwch.

Mae cysylltiad clir rhwng cynnig diwylliannol cryfach a thwristiaeth lwyddiannus. Gall cyfuniad o ddiwydiant creadigol cryf a thwristiaeth ddiwylliannol gydol y flwyddyn greu swyddi a chynnal twf cynaliadwy mewn twristiaeth, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â sector manwerthu o werth uwch ac economi'r nos mwy ffyniannus.

Mae Rhaglen Llysgennad Twristiaeth newydd Conwy wedi'i anelu at fusnesau twristiaeth a chymunedol. Mae'n declyn rhagorol ar gyfer gwella sgiliau staff sy'n gweithio yn y sector ac yn cefnogi'r economi ehangach i ymgysylltu mwy â thwristiaeth.




Tua Hiraethog, Conwy Wledig © CBSC

Mae hyn hefyd yn ffordd ddefnyddiol o gysylltu darparwyr llety â'r cynnig diwylliannol gan mai nhw yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymwelwyr.

Mae'r cynllun yn clymu i mewn ag Academi Twristiaeth Grŵp Llandrillo Menai sy'n hyrwyddo twristiaeth fel 'swydd go iawn' sy'n agor y drws at gyfleoedd a datblygiad.

Hoffem adeiladu ar y mentrau rhagorol hyn a chreu Llysgenhadon Diwylliannol sy'n gallu bod yn bencampwyr dros ddiwylliant yn Sir Conwy a dod â'n treftadaeth yn fyw i ymwelwyr.

### ASTDIAETH ACHOS

Mae Noson Allan (Night Out) yn helpu cymunedau ar draws Cymru i lwyfannu sioeau proffesiynol yn lleol. Gan weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, mae'n dileu'r risg ariannol y gall pwyllgor neuadd bentref neu grŵp o'r fath ei wynebu wrth drefnu digwyddiad.

"Mae hwn yn gynllun ardderchog sy'n caniatáu i ni gael sioeau a fyddent fel arall y tu hwnt i'n cyrraedd. Does gennym ni ddim amwynderau yng Nghwm Penmachno a heb y sioeau hyn byddai ein cymuned yn dlotach yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol" (Grŵp Gweithredu Cymunedol Cwm).

## CYNULLEIDFAOEDD IAU

Pobl ganol oed, addysgedig, yn enwedig merched, sy'n dueddol o ffurfio'r gynulleidfa ddiwylliannol graidd arferol.

Mae oedolion ifanc yn y grŵp oedran 18-29 yn llawer llai tebygol o fod yn rhan o'r gynulleidfa honno. Bydd ein syniadau am raglen ddiwylliannol fwy anturus a thargedu'n fwy gweithredol berfformwyr ifanc a phobl ifanc greadigol yn helpu i ymgysylltu'r grŵp hwn. Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant yma yw trosglwyddo'r awenau i'n pobl ifanc gynhyrchu rhaglenni diwylliannol ar y cyd - wedi'u cefnogi gan bartneriaid megis Yr Urdd, rhaglenni Pobl Ifanc Greadigol Venue Cymru a Gwasanaeth Ieuenctid Conwy.

Byddwn yn parhau i gryfhau'r cysylltiad rhwng diwylliant ac ysgolion, yn cynnwys monitro'r potensial i ail-lansio prosiectau Cyngor Celfyddydau Cymru megis Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Byddwn hefyd yn adeiladu ar gynlluniau fel Rhaglen Llysgenhadon Treftadaeth Ifanc Canolfan Ddiwylliant Conwy ac yn ceisio ehangu'r cyfleoedd am ddysgu achrededig.



Criw Celf Conwy © CBSC





## CYLLID

Mae toriadau i gyllid y sector cyhoeddus dros y deng mlynedd ddiwethaf wedi bod yn ergyd galed i'r sector diwylliant.

Er enghraifft roedd yn rhaid i CBSC ddod o hyd i arbedion o £34.5m rhwng 2015 a 2020, ac yn anorfod arweiniodd hynny at lai o gyllid ar gyfer diwylliant. O dan y model llywodraethu Creu Conwy newydd, rydym eisiau creu Cronfa Menter Ddiwylliannol sy'n cyfuno ffynonellau o gyllid megis:

- Incwm masnachol
- Cyfraniadau sector preifat megis Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR)/Nawdd
- Archwilio cynlluniau rhoi
- Rhagnodi cymdeithasol
- Cyfranddaliadau/bondiau cymunedol
- Ceisiadau cyllido cydlynol i gronfeydd nad ydynt ar agor i awdurdodau lleol ar hyn o bryd
- Caffael – datblygu cadwyni cyflenwi lleol drwy gefnogi sefydliadau llai wrth dendro a darparu er mwyn caniatáu iddynt ehangu
- Datblygu Ymddiriedolaeth Datblygu Eiddo i alluogi defnydd amgen o asedau, i brynu a dod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd ac i fuddsoddi'n allanol



Gladys Roberts yn pysgota am gregyn gleision yng Nghonwy Conwy © Gwasanaeth Archifau Conwy.

- Marchnadoedd ariannol newydd e.e. cronfeydd buddsoddiad cynaliadwy
- Asiantaethau cyhoeddus – all sector creadigol Conwy greu opsiynau buddsoddi deniadol ar gyfer asiantaethau allanol, er enghraifft gweithio gyda chymdeithasau tai i daclo problemau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio?
- Buddsoddiad preifat.

## GWNEUD I HYN DDIGWYDD

Mae Creu Conwy eisoes wedi dechrau gwireddu ei weledigaeth ei hun drwy gael sgyrsiau pellgyrhaeddol a chynhwysfawr gyda phobl sy'n angerddol am ddyfodol Conwy.

Mae'r cyfle i ymgeisio am statws Dinas Diwylliant y DU yn 2021 wedi cyflymu'r broses hon drwy ddynodi blaenoriaethau, creu perthnasoedd newydd llawn addewid a chodi proffil diwylliant yng Nghonwy.

Mae adborth o ymgynghoriadau am Greu Conwy wedi amlygu nifer o heriau. Os yw'r strategaeth am lwyddo, mae'n rhaid i gludiant i ac o ddigwyddiadau a mannau diwylliannol fod yn gynaliadwy ac yn addas i'r pwrpas; mae'n rhaid i raglennu diwylliannol fod yn sensitif i'r amgylchedd a chymunedau ac mae'n rhaid i'r seilwaith a'r adnoddau cywir fod yn eu lle.

Ein tasg nesaf fydd dadansoddi'r heriau a'r cyfleoedd hyn a dechrau'r broses o gynllunio camau gweithredu ar y cyd â'n cymunedau a'n partneriaid.

**BETH NESAF?**

**A. Rhoi egwyddorion Creu Conwy ar waith mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar draws pob sector:**

1. **Anturus:** ydi hyn yn gwneud pob dydd yn antur?
2. **Chwareus:** fydd hyn yn gwneud i bobl stopio, gwenu a/neu ymuno?
3. **Cysylltiedig:** ydi hyn yn dod â phobl a/neu lefydd at ei gilydd?

**B. Sefydlu cynlluniau gweithredu a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i'w hariannu a'u darparu:**

1. Strwythurau sefydliadol a staffio, yn cynnwys creu Timau Trefi.
2. Rheoli Asedau
3. Cyllid.




Cysylltwch â:
E-bost: diwylliant.culture@conwy.gov.uk
Ffôn: 01492 576139
Gall cwsmeriaid sydd â nam ar eu clyw gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu 18001 cyn y rhif ffôn sydd ei angen arnynt.

Arwydd Llanrwst © Keith Morris